# Polisi Atal Llwgrwobrwyo

**Y corff sy'n cymeradwyo**: Y Cyngor

**Dyddiad cymeradwyo**: 26 Tachwedd 2018

**Perchennog y polisi:** Y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

**Y cyswllt polisi:** Stephen Forster, stf17@aber.ac.uk

**Statws y polisi:** Diwygiedig

**Fersiwn:** 2.0

**Dyddiad yr adolygiad diwethaf:** Tachwedd 2018

**Dyddiad yr adolygiad nesaf:** Tachwedd 2020

# PRIFYSGOL ABERYSTWYTH
# POLISI ATAL LLWGRWOBRWYO

## 1. DATGANIAD POLISI

Mae Prifysgol Aberystwyth ("y Brifysgol") wedi ymrwymo i gyflawni i swyddogaethau academaidd a'i swyddogaethau busnes mewn modd gonest a moesegol ac i gadw darpariaethau Deddf Llwgrwobrwyo 2010 y Deyrnas Unedig ("y Ddeddf Llwgrwobrwyo"), a hynny o ran ei hymddygiad gartref a thros y môr.

Diben y polisi hwn yw:

- Darparu gwybodaeth ac arweiniad i bawb yn y Brifysgol, ni waeth beth fo'i swydd, ar sut i adnabod materion llwgrwobrwyo a llygredd ac ymdrin â nhw;
- Helpu i hyrwyddo hinsawdd o fod yn agored a diwylliant ac amgylchedd lle mae'r staff yn teimlo eu bod yn gallu codi pryderon mewn modd synhwyrol a chyfrifol; a
- Nodi cyfrifoldebau'r Brifysgol o ran rhwystro, atal a chanfod llwgrwobrwyo a llygredd ac ymchwilio iddynt.

Cyflwynodd y Ddeddf Llwgrwobrwyo, a ddaeth i rym ar 1 Gorffennaf 2011, drefn gliriach ar gyfer mynd i'r afael â llwgrwobrwyo a honno'n gymwys i bob busnes a sefydliad sy'n seiliedig yn y Deyrnas Unedig neu'n gweithredu yno. Mae'n cynnwys pob math o lwgrwobrwyo, cynnig neu dderbyn llwgrwobr, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, p'un a yw hynny'n cynnwys swyddog cyhoeddus, yn y Deyrnas Unedig neu dros y môr.

Mae llwgrwobrwyo yn drosed i unigolion ac i sefydliadau masnachol fel ei gilydd. Mae'r cosbau am y troseddau hyn yn cynnwys hyd at 10 mlynedd o garchar i'r unigolion sy'n gyfrifol. Yn ychwanegol, os canfyddir bod y Brifysgol wedi bod yn rhan o weithredoedd llwgr neu wedi caniatáu gweithredoedd llwgr a gyflawnwyd yn enw'r Brifysgol, mae'r cosbau'n cynnwys atebolrwydd personol ar gyfer uwch-reolwyr a dirwy ddiderfyn a niwed arwyddocaol i enw da'r Brifysgol.

Mae'r datganiad polisi hwn wedi ei fabwysiadu ac wedi ei gymeradwyo gan Weithrediaeth y Brifysgol. Y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yw swyddog cydymffurfiaeth y Brifysgol o dan y Ddeddf Llwgrwobrwyo.

## 2. PWY SY'N DOD O DAN Y POLISI?

Mae'r polisi hwn yn gymwys i bob unigolyn sy'n gweithio ar bob lefel a gradd, gan gynnwys uwch-reolwyr, swyddogion, cyflogeion (parhaol, cyfnod penodol neu dros dro) a'r rhai sy'n gweithredu ar ran y Brifysgol ("personau cysylltiedig"), gan gynnwys ymgynghorwyr, staff ar secondiad, staff asiantaeth, gwirfoddolwyr, interniaid, asiantau, noddwyr, aelodau o'r corff llywodraethu, neu unrhyw bartïon eraill sydd â pherthynas fusnes gyda'r Brifysgol lle bynnag y maent wedi'u lleoli.

Mae ymrwymiad ar y lefel uchaf yn nodwedd hanfodol o ran cydymffurfio â'r Ddeddf Llwgrwobrwyo a disgwylir i gydweithwyr sydd â chyfrifoldebau rheoli rannu ymrwymiad y Weithrediaeth i gadw a gweithredu ysbryd a thelerau'r polisi hwn.

## 3. CYFRYNGWYR

O dan amgylchiadau penodol, gellir barnu bod y Brifysgol yn gyfrifol am weithredoedd llwgrwobrwyo a gyflawnir gan gyfryngwyr sy'n gweithredu ar ei rhan, megis is-gwmnïau, cleientau, partneriaid busnes, contractwyr, cyflenwyr, asiantau, cynghorwyr, ymgynghorwyr neu drydydd partïon eraill. Gwaherddir defnyddio cyfryngwyr er mwyn cyflawni gweithredoedd llwgrwobrwyo.

Rhaid i bob cyfryngwr gael ei ddewis â gofal, a rhaid i bob cytundeb â chyfryngwr gael ei wneud o dan delerau sy’n cyd-fynd â’r polisi hwn. Bydd y Brifysgol yn ei gwneud yn ofynnol mewn contractau i’w hasiantau a’i chyfryngwyr eraill gydymffurfio â’r Polisi Atal Llwgrwobrwyo a chadw llyfrau a chofnodion priodol ar gael i'w harchwilio gan y Brifysgol, ei harchwilwyr neu awdurdodau ymchwilio. Rhaid i gytundebau gydag asiantau a chyfryngwyr eraill bob amser ddarparu’r dulliau contractiol angenrheidiol i’w gorfodi i gydymffurfio â’r drefn atal llwgrwobrwyo. Bydd y Brifysgol yn monitro’r perfformiad ac, mewn achos o beidio â chydymffurfio, yn ei gwneud yn ofynnol i ddiffygion gael eu cywiro, yn defnyddio cosbau, neu yn y pen draw yn terfynu'r cytundeb.

## 4. BETH YW LLWGRWOBRWYO?

Mae diffiniadau llwgrwobrwyo a llygred dyn amrywio, ond ymdrinnir â’r ddau yn Neddf Llwgrwobrwyo 2010.

Llwgrwobrwyo yw cynnig neu dderbyn rhoddion, benthyciadau, ffioedd, gwobrau neu fanteision eraill i unrhyw berson neu gan unrhyw berson fel cymhelliant i wneud rhywbeth sy'n anghyfreithlon, yn anfoesegol neu’n dor ymddiriedaeth.

Llygredd yw cynnig neu dderbyn rhoddion, ffafrau, taliad neu fudd mewn da a allai ddylanwadu ar weithredoedd unrhyw berson. Nid yw llygredd bob amser yn arwain at golled. Efallai na fydd y person llwgr yn elwa’n uniongyrchol ar ei weithredoedd; er hynny, fe allai fod yn defnyddio’i sefyllfa mewn modd afresymol i roi rhyw fantais i rywun arall.

O dan y Ddeddf Llwgrwobrwyo, mae’n drosedd:

- cynnig llwgrwobr;
- derbyn llwgrwobr;
- llwgrwobrwyo swyddog tramor; neu
- gydsynio neu ymoddef i drosedd gael ei chyflawni gan unrhyw un sy’n gysylltiedig â’r Brifysgol mewn perthynas â busnes a gyflawnir ar ran y Brifysgol – h.y. methu ag atal llwgrwobr rhag cael ei rhoi.

## 5. RHODDION A LLETYGARWCH

Nid yw’r polisi hwn yn gwahardd croeso corfforaethol priodol a / neu letygarwch arferol a phriodol (o’u rhoi neu o’u derbyn) mewn cysylltiad â gweithgareddau busnes y Brifysgol, ar yr amod bod y gweithgaredd yn ddilys, yn arferol o dan yr amgylchiadau, yn gymesur, ac yn cael ei ddatgelu yn y modd priodol yn unol â gweithdrefnau ariannol y Brifysgol. Er hynny, fe fydd rhoddion, lletygarwch a rhoddion elusennol neu wleidyddol yn llwgrwobrwyon os cânt eu rhoi neu eu derbyn gan fwriadu dylanwadu ar benderfyniadau busnes.

Ceir canllawiau ar yr arferion a dderbynnir gan y Brifysgol o ran rhoddion a lletygarwch yn y canlynol

- Adran 10 o’r Gweithdrefnau Ariannol – Polisi Rhoddion a Lletygarwch;
- Adran 12 o’r Rheoliadau Ariannol – Cronfeydd a Gedwir mewn Ymddiriedolaeth – rhoddion.

Rhaid peidio â rhoi na derbyn rhoddion cwrteisi a lletygarwch yn gyfnewid am wasanaethau a ddarperir neu i sicrhau neu gadw busnes, ond mae’n rhaid eu trin yn agored ac yn ddiamod fel arwydd o barch neu ewyllys da yn unig.

Ni waherddir rhoi neu dderbyn rhoddion, os bodlonir y gofynion a ganlyn:

- Na roddir y rhodd gan fwriadu dylanwadu ar drydydd parti i sicrhau neu gadw busnes neu fantais busnes, nac i roi gwobr am ddarparu neu gadw busnes neu fantais busnes, nac yn

gyfnewid eglur neu ymhlyg am ffafrau neu fuddion.

- Ei bod yn cydymffurfio ag unrhyw ddeddf leol.
- Nad yw’n cynnwys arian parod na dim sy’n cyfateb i arian parod (megis tystysgrifau rhodd neu dalebau).
- Bod y rhodd, gan gymryd y rheswm drosti i ystyriaeth, o fath a gwerth priodol ac yn cael ei rhoi ar adeg briodol. Er enghraifft, yn y Deyrnas Unedig mae’n arfer rhoi rhoddion bach adeg y Nadolig.
- Nad yw’n werth mwy na £25. Rhaid i roddion sy’n werth mwy na hyn gael eu datgan i'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol a fydd yn penderfynu ar eu perchnogaeth. Pan fo’r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol o’r farn ei bod yn briodol i’r aelod staff gadw’r rhodd, rhaid datgan hynny ar y Gofrestr Buddiannau.
- Ei bod yn cael ei rhoi’n agored, nid yn gyfrinachol.

Ni ddylai rhoddion byth gael eu cynnig i swyddogion neu gynrychiolwyr llywodraeth, neu wleidyddion neu bleidiau gwleidyddol, na chael eu derbyn oddi wrth y rhain.

Ni chaiff unrhyw aelod staff neu berson cysylltiedig dderbyn lletygarwch (er enghraifft teithiau, gwesty neu bresenoldeb mewn digwyddiadau chwaraeon neu ddigwyddiadau eraill) sy’n werth dros £100.

## 6. RHODDION GWLEIDYDDOL AC ELUSENNOL

Nid yw'r Brifysgol yn gwneud cyfraniadau i bleidiau gwleidyddol nac ymgyrchoedd etholiad. Mae'r Brifysgol yn cefnogi rhoddion a mentrau elusennol gan gydweithwyr. Er hynny, nid yw’n agored i'r Brifysgol wneud rhoddion elusennol ar lefel sefydliadol ond o dan amgylchiadau rhagnodedig cyfyngedig. Rhaid peidio â rhoi’r taliadau neu’r rhoddion hyn i unrhyw sefydliad ar awgrym unrhyw berson er mwyn ei gymell i gyflawni’n amhriodol y swyddogaeth neu’r gweithgareddau y disgwylir iddo eu cyflawni yn ddidwyll, yn ddiduedd neu mewn sefyllfa o ymddiriedaeth, nac i wobrwyo’r person hwnnw am gyflawni’r swyddogaeth honno neu’r gweithgaredd hwnnw mewn modd amhriodol.

Rhaid i unrhyw roddion neu gyfraniadau fod yn foesegol ac yn dryloyw. Rhaid i fanylion adnabod y derbynnydd a dibenion arfaethedig y rhodd fod yn glir a rhaid i'r rheswm dros y rhodd allu cael ei gyfiawnhau a chael ei gofnodi. Bydd pob rhodd elusennol yn cael ei datgelu’n gyhoeddus.

Nid yw rhoddion i unigolion ac i sefydliadau sy'n gwneud elw na rhoddion sy’n cael eu talu i gyfrifon preifat yn gydnaws â safonau moesegol y Brifysgol ac mae’r rhain wedi eu gwahardd.

Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch natur a dilysrwydd unrhyw gais am wneud rhoddion elusennol, dylai’r rhain gael eu cyfeirio i ddechrau at y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol.

Fe allai cyfraniadau elusennol a nawdd elusennol fod yn ffynhonnell bwysig o incwm i’r Brifysgol ac ni ddylid annog neb i beidio â’u rhoi. Er hynny, mae yna risgiau yn gysylltiedig â’r taliadau hyn ac mae angen i reolwyr fod yn wyliadwrus er mwyn sicrhau bod y Brifysgol yn adnabod y cyfrannwr, o ble y daw'r arian, y diben ac nad oes gwrthdrawiad buddiannau yn codi yn sgil derbyn y taliadau hyn.

Ceir canllawiau ar yr arferion a dderbynnir gan y Brifysgol o ran derbyn rhoddion elusennol yn:

- Polisi Derbyn Cyfraniadau Prifysgol Aberystwyth.

## 7. NAWDD

Ystyr nawdd yw unrhyw gyfraniad mewn arian neu mewn da gan y Brifysgol tuag at ddigwyddiad a drefnir gan drydydd parti yn gyfnewid am gyfle i godi proffil y Brifysgol. Rhaid i bob cyfraniad nawdd fod yn dryloyw, yn unol â chytundeb ysgrifenedig, at ddibenion busnes dilys, ac yn gymesur â'r gydnabyddiaeth sy'n cael ei chynnig i'r sawl sy'n cynnal y digwyddiad.

Ni chaniateir cyfraniadau at ddigwyddiadau a drefnwyd gan unigolion neu sefydliadau sydd â nodau sy'n anghydnaws â chenhadaeth a gwerthoedd y Brifysgol, neu a allai niweidio enw da'r Brifysgol.

Dylid gofyn am gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol. Bydd pob nawdd yn cael ei datgelu'n gyhoeddus.

Pan gynigir nawdd masnachol i ariannu digwyddiadau neu ddeunyddiau addysgol y Brifysgol a'i chyfarfodydd cyffredinol, rhaid i'r nawdd fod yn dryloyw, yn unol â chytundeb ysgrifenedig, at ddibenion busnes dilys ac yn gymesur â'r achlysur. Pan fo cyfarfodydd yn cael eu noddi gan ffynonellau allanol, rhaid datgelu'r ffaith honno yn y papurau sy'n ymwneud a'r cyfarfod ac mewn unrhyw gofnodion / trafodion a gyhoeddir.

## 8. TALIADAU HWYLUSO

Mae taliadau hwyluso'n daliadau a wneir i sicrhau neu i gyflymu'r broses o gyflawni gweithred arferol gan y un o swyddogion neu asiantaethau'r llywodraeth y mae gan y talwr hawl gyfreithiol neu hawl arall iddi. Nid yw'r rhain yn cael eu talu'n gyffredin yn y Deyrnas Unedig ond fe allent fod yn gyffredin mewn gwledydd eraill lle mae'r Brifysgol yn cynnal ei gweithgareddau.

Gwaherddir taliadau hwyluso o dan y Ddeddf Llwgrwobrwyo fel unrhyw fath arall o lwgrwobr. Rhaid i'r staff a phersonau cysylltiedig beidio â gwneud na derbyn taliadau hwyluso ar ran y Brifysgol.

Os gofynnir i chi wneud taliad ar ran y Brifysgol, dylech bob amser fod yn ymwybodol o ddiben y taliad ac a yw'r swm y gofynnwyd amdano yn gymesur â'r nwyddau neu'r gwasanaethau a ddarparwyd. Dylech bob amser ofyn am dderbynneb sy'n rhoi manylion am y rheswm dros y taliad.

Os bydd taliad hwyluso yn cael ei orfodi, neu os ydych yn cael eich gorfodi i dalu o'ch anfodd, mae'n rhaid ichi gofnodi'r taliad a rhoi gwybod yn ddi-oed o dan y weithdrefn a nodir ym mharagraff 11.

## 9. CADW COFNODION

Mae'r Brifysgol o dan ddyletswydd i fonitro'r ffaith bod telerau'r Ddeddf Llwgrwobrwyo yn cael eu cadw gan gyflogeion, gweithwyr a'r rhai sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol. Mae'n ofynnol i'r Brifysgol gadw cofnodion ariannol a threfnu rheolaeth fewnol briodol a fydd yn cofnodi'r rheswm busnes dros wneud taliadau i drydydd partïon.

Rhaid ichi ddatgan a chadw cofnod ysgrifenedig o bob lletygarwch neu rodd a dderbynnir neu a gynigir, yn unol â'r canlynol:

- Adran 10 o'r Gweithdrefnau Ariannol – Polisi Rhoddion a Lletygarwch;
- Adran 12 o'r Rheoliadau Ariannol – Cronfeydd a Gedwir mewn Ymddiriedolaeth – rhoddion.

Rhaid ichi sicrhau bod pob cais i drydydd partïon am dreuliau sy'n ymwneud â lletygarwch, rhoddion neu dreuliau a ysgwyddwyd yn cael ei gyflwyno yn unol â'r Polisi, gan gofnodi'n benodol y rheswm am y gwariant.

Rhaid i bob cyfrif, anfoneb a dogfen a chofnod arall sy'n ymwneud â delio â thrydydd partïon, megis cyflenwyr a chysylltiadau busnes eraill, gael ei baratoi'n gywir ac yn gyflawn. Ni dylai unrhyw gyfrifon neu gofnodion gael eu cadw "oddi ar y llyfr" i hwyluso neu guddio taliadau amhriodol.

## 10. SUT I GODI PRYDER

Fe'ch anogir i godi pryderon am unrhyw achos o gamymddwyn neu amheuaeth o gamymddwyn ar y cyfle cynharaf posibl. Os ydych yn ansicr a yw gweithred benodol yn gyfystyr â llwgrwobrwyo neu lygredd, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau eraill, dylech godi'r mater gyda'ch rheolwr llinell yn y lle cyntaf. Os oes arnoch chi neu eich rheolwr llinell angen rhagor o arweiniad, dylech gysylltu â swyddog cydymffurfiaeth y Brifysgol o dan y Ddeddf Llwgrwobrwyo. Gallwch roi gwybod am gamymddygiad drwy ddilyn y weithdrefn a nodir ym mholisi'r Brifysgol ar Ddatgelu er Lles y Cyhoedd (Chwythu'r Chwiban).

Y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol (Rheolwriaeth) yw swyddog cydymffurfiaeth y Brifysgol o dan y Ddeddf Llwgrwobrwyo.

### 11. BETH I'W WNEUD OS BYDDWCH YN DIODDEF LLWGRWOBRWYO NEU LYGREDD

Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrth eich rheolwr llinell cyn gynted â phosibl os cewch gynnig llwgrwobr gan drydydd parti, os gofynnir ichi roi llwgrwobr, os ydych yn amau y gallai hyn ddigwydd yn y dyfodol, neu os ydych yn credu eich bod wedi dioddef math arall o weithgaredd anghyfreithlon. Dylai unrhyw achos o lwgrwobrwyo neu ymgais i lwgrwobrwyo hefyd gael ei fynegi'n brydlon i swyddog cydymffurfiaeth y Brifysgol o dan y Ddeddf Llwgrwobrwyo. Os yw'r llwgrwobrwyo yn ymwneud â'ch rheolwr llinell, gallwch roi gwybod yn uniongyrchol am eich pryder i'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol (neu i'r Is-Ganghellor os yw'r llwgrwobrwyo'n ymwneud â'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol).

### 12. AMDDIFFYNIADAU

Weithiau mae staff y Brifysgol sy'n gwrthod derbyn neu gynnig llwgrwobr, neu'r rhai sydd yn codi pryderon neu'n rhoi gwybod am gamymddygiad rhywun arall, yn poeni am yr effeithiau posibl. Bydd y Brifysgol yn cefnogi unrhyw un sy'n codi pryderon dilys yn ddidwyll o dan y polisi hwn.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau na fydd neb yn dioddef unrhyw driniaeth andwyol drwy wrthod cymryd rhan mewn llwgrwobrwyo neu lygredd, neu am eu bod wedi rhoi gwybod yn ddidwyll am eu hamheuaeth bod llwgrwobrwyo neu lygredd arall, gwirioneddol neu bosibl, wedi digwydd, neu y gallent ddigwydd yn y dyfodol. Mae triniaeth andwyol yn cynnwys diswyddo, camau disgyblu, bygythiadau neu driniaeth anffafriol arall sy'n gysylltiedig â chodi pryder. Os ydych yn credu eich bod chithau wedi dioddef triniaeth o'r fath, dylech roi gwybod i'ch rheolwr llinell. Gallwch gysylltu ag adran adnoddau dynol y Brifysgol i gael cyngor a chymorth. Os na chaiff y mater ei ddatrys, a'ch bod yn gyflogai, dylech godi'r mater yn ffurfiol drwy ddefnyddio gweithdrefnau cwyno'r Brifysgol.

### 13. CYFRIFOLDEBAU

Cyfrifoldeb y Brifysgol yw:

- Sicrhau bod yr holl staff yn cael digon o wybodaeth a chyfle i'w galluogi i gydymffurfio'n llawn â gofynion y rheoliadau. Gwneir hyn drwy:
- Llunio a diweddaru'r polisi hwn yn gyson; a
- Darparu hyfforddiant gorfodol ar-lein.

Eich cyfrifoldeb chi yw:

- Darllen a deall y polisi hwn a chydymffurfio ag ef;
- Osgoi unrhyw weithgaredd a allai arwain at dorri'r polisi hwn neu awgrymu ei fod yn cael ei dorri. Mae pawb sy'n gweithio i'r Brifysgol neu sy'n gysylltiedig â hi yn gyfrifol am atal a chanfod llwgrwobrwyo a mathau eraill o lygredd, a rhoi gwybod amdanynt;
- Asesu pa mor agored i niwed yw eich gweithgareddau, yn enwedig dros y môr, a hynny'n barhaus. Mae asesu risg mewn modd effeithiol er mwyn gwerthuso a lliniaru risg yn elfen hanfodol o'r polisi hwn; a

- Hysbysu'ch rheolwr a / neu swyddog cydymffurfiaeth y Brifysgol o dan y Ddeddf Llwgrwobrwyo cyn gynted ag y bo modd os ydych yn credu neu'n amau bod gwrthdaro â'r polisi hwn wedi digwydd, neu y gallai ddigwydd yn y dyfodol.

Bydd unrhyw gyflogai sy'n torri'r polisi hwn yn wynebu camau disgyblu, a allai arwain at ei ddiswyddo am gamymddygiad dybryd.

## 14. BETH SY'N ANNERBYNIOL?

Nid yw'n dderbyniol i chi (neu rywun ar eich rhan) wneud y canlynol:

- Rhoi, addo rhoi, neu gynnig, taliad, rhodd neu letygarwch gan ddisgwyl neu obeithio sicrhau mantais fusnes, neu er mwyn gwobrwyo mantais fusnes sydd eisoes wedi ei rhoi.
- Rhoi, addo rhoi, neu gynnig, taliad, rhodd neu letygarwch i swyddog, asiant neu gynrychiolydd llywodraeth, er mwyn "hwyluso" neu gyflymu gweithdrefn sy'n rhan o'r drefn.
- Derbyn taliad gan drydydd parti a chithau'n gwybod neu'n amau ei fod wedi'i gynnig gan ddisgwyl sicrhau mantais fusnes iddo.
- Derbyn rhodd neu letygarwch gan drydydd parti os ydych yn gwybod neu'n amau ei fod yn cael ei gynnig gan ddisgwyl y byddwn ninnau'n darparu mantais fusnes yn gyfnewid amdano.
- Bygwth neu dalu'r pwyth yn ôl i gydweithiwr neu drydydd parti sydd wedi gwrthod cyflawni trosedd llwgrwobrwyo neu sydd wedi codi pryderon o dan y polisi hwn.
- Ymwneud ag unrhyw weithgaredd a allai arwain at dorri'r polisi hwn.

## Atodiad A: Senarios Risg Posibl - 'Baneri Coch'

### Enghreifftiau: Cynnig llwgrwobr

- Rydych yn cynnig tocynnau i digwyddiad diwylliannol neu ddigwyddiad chwaraeon mawr i bartner busnes neu gleient posibl, ar yr amod y byddant yn cytuno i wneud busnes gyda chi / y Brifysgol o ganlyniad.

Byddai hyn yn drosedd gan eich bod yn gwneud y cynnig er mwyn sicrhau mantais fasnachol a chontractiol. Hefyd, fe ellid dyfarnu bod y Brifysgol wedi cyflawni trosedd am fod y cynnig wedi ei wneud i sicrhau busnes i'r Brifysgol.

### Derbyn llwgrwobr

- Mae cyflenwr yn rhoi swydd i aelod o'ch teulu, ond yn ei gwneud yn glir ei fod yn disgwyl i chithau ddefnyddio'ch swydd i ddylanwadu ar y posibilrwydd o sicrhau busnes gan y Brifysgol neu fantais arall iddo yn gyfnewid.

Mae'n drosedd i gyflenwr wneud cynnig o'r fath. Byddai'n drosedd i chithau dderbyn y cynnig gan y byddech yn gwneud hynny er mwyn ennill mantais bersonol. Mae cyflenwyr y dyfernir eu bod wedi cyflawni trosedd llwgrwobrwyo yn awtomatig yn cael eu gwahardd o unrhyw broses dendro gan awdurdodau cyhoeddus yn y dyfodol.

- Mae cyn-fyfyrwraig gyfoethog yn trefnu bod ei chwmni'n rhoi rhodd sylweddol i'r Brifysgol ar yr amod bod ei phlentyn yn cael cynnig lle ar gwrs penodol.

### Llwgrwobrwyo swyddog tramor

- Rydych yn talu neu'n gwneud trefniadau i dalu taliad ychwanegol i swyddog tramor i gyflymu'r broses weinyddol (megis clirio nwyddau drwy'r tollau). Er enghraifft, mae cydweithiwr academaidd ar daith maes yn talu swm i swyddogion y tollau er mwyn osgoi oedi gormodol wrth fewnforio offer maes.

- Mae asiantaeth sy'n gyfrifol am recriwtio myfyrwyr yn talu swm bach i swyddog yn yr adran addysg er mwyn cael cysylltu â'r myfyrwyr mewn ysgol sy'n uchel ei chlod.

Mae'r drosedd o lwgrwobrwyo swyddog cyhoeddus tramor wedi ei chyflawni cyn gynted ag y gwneir y cynnig, a hynny gan fod y cynnig wedi ei wneud er mwyn sicrhau mantais fusnes i chi neu'r Brifysgol.

### Methu ag atal llwgrwobr

- Gwybod bod gweithgaredd yn digwydd yn y Brifysgol neu gan gynnwys rhywun sy'n gweithredu ar ran y Brifysgol a hynny yn gwbl groes i Bolisi Atal Llwgrwobrwyo'r Brifysgol ond eich bod yn methu â rhoi gwybod i'r unigolyn neu'r corff perthnasol yn y Brifysgol am eich amheuon.

### Senarios Risg Posibl

Mae'r materion isod yn nodi nifer o senarios sy'n dangos risg uwch o drosedd yn erbyn y Ddeddf Llwgrwobrwyo:

- Rydych yn cael gwybod bod trydydd parti yn ymwneud ag arferion busnes amhriodol, neu wedi'i gyhuddo o ymwneud ag arferion busnes amhriodol.

- Rydych yn cael gwybod bod gan drydydd parti enw am dalu llwgrwobrwyon, neu'n mynnu cael llwgrwobrwyon, neu enw am fod â "pherthynas arbennig" â swyddogion llywodraethau tramor.

- Mae trydydd parti yn mynnu cael taliad comisiwn neu ffi cyn ymrwymo i lofnodi contract neu i gyflawni un o swyddogaethau neu brosesau llywodraeth.

- Mae trydydd parti yn gofyn i daliad gael ei wneud mewn arian parod a/neu yn gwrthod llofnodi trefniant comisiwn neu ffi ffurfiol, neu i ddarparu anfoneb neu dderbynneb am daliad a wnaed.

- Mae trydydd parti yn gofyn i daliad gael ei wneud i wlad neu leoliad daearyddol gwahanol i'r fan lle mae'r trydydd parti yn preswylio neu'n cynnal busnes.

- Mae trydydd parti yn mynnu ffi neu gomisiwn ychwanegol annisgwyl i "hwyluso" gwasanaeth.

- Mae trydydd parti yn mynnu adloniant neu roddion moethus cyn cychwyn neu barhau trafodaethau ar gontract neu cyn darparu gwasanaethau.

- Mae trydydd parti yn gofyn am daliad er mwyn "anwybyddu" tramgwyddau cyfreithiol posibl.

- Mae trydydd parti yn gofyn ichi ddarparu cyflogaeth, lle ar gwrs, neu ryw fantais arall i ffrind neu berthynas.

- Rydych yn cael anfoneb gan drydydd parti sy'n ymddangos yn ansafonol neu wedi'i haddasu.

- Mae trydydd parti yn mynnu defnyddio llythyrau ochr neu yn gwrthod rhoi telerau y cytunwyd arnynt mewn ysgrifen.

- Rydych yn sylwi bod y Brifysgol wedi cael anfoneb am daliad comisiwn neu ffi sy'n ymddangos yn fawr o gofio'r gwasanaeth y dywedir ei fod wedi'i ddarparu.

- Mae trydydd parti yn gofyn neu'n mynnu defnyddio asiant, cyfryngwr, ymgynghorydd, dosbarthwr neu gyflenwr nad yw'n cael ei ddefnyddio fel arfer neu nad yw'n hysbys i'r Brifysgol.

- Rydych yn cael cynnig rhodd neu letygarwch anarferol o hael gan drydydd parti.